# COFNODION DRAFFT CYNGOR BRO LLANGELER 24 – 04 – 2023

Cofnodion Drafft Cyfarfod Nos Lun Ebrill 24ain 2023 am 7.30y.h. yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr

1. **04/23 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Delyth Evans Cynghorwyr:, Jamie Ayres, John Crossley, Angharad Edwards, Richard Evans, Aled Eynon, Ken Howell, Marc Rees, Gethin Richards, Eleri Samson, Antoni Schiavone, Adrian Thomas.
Clerc – Stella Jones.
**Hefyd yn Bresennol:** Cynghorydd Sir Hazel Evans a chyfieithydd

2. **04/23 YMDDIHEURIADAU:** Cyng:- Aled Eynon

3. **04/23 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** ni fydd y Cyng K Howell yn cymryd rhan yn y drafodaeth yn adran Ceisiadau Cynllunio a ddaw gerbron y Cyngor. Cyng K Howell a G Richards Yswiriant Parc Saron 10.ii.04/23

4. **04/23 HEDDLU:** – Ymddiheiriadau – *nododd PCSO J Kedward bod yr heddlu wedi bod allan yn Stryd yr Orsaf Pont Tyweli ynglyn a'r goryrru ac roedd yn gobeithio cael mwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf – dwedodd Cyng A Thomas taw ar yr hewl yn dod oddi ar y ffordd osgoi am Pont Tyweli oedd y broblem*

5. **04/23 COFNODION:** i. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Mawrth 27ain 2023.
Cynnig – Cyng Gethin Richards Eilio – Cyng Eleri Samson

6. **04/23 MATERION YN CODI COFNODION**
6.xx. Lês Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – *dim i adrodd nol ar hyn o bryd , gobeithir bydd mwy mis nesaf*
7.i.04/22 Tir y Cyngor yn Waungilwen – *Mae Mr Irfon Williams wedi gwneud cais i godi silwair o'r cae am eleni gan obeithio gwneud dwy dorriad ac yn dibynnu ar y canlyniad a fyddai yn cymryd cytundeb tymor hir – cytunwyd i hyn ar £100 y torriad*
11.1.06/22 Hysbysfwrdd T Llew Jones – *yr hysbysfwrdd newydd yn ei le ac yn edrych yn dda dwedodd y Cadeirydd*
11.2.i.11/22 Dŵr gerllaw Garej Bargoed – *Clerc wedi derbyn llythyr wrth D C Gwasanaeth Carffosiaeth yn nodi ei bod wedi bod allan i geisio clirio'r carthffos ond oherwydd tywydd garw bu'n amhosib cwblhau'r gwaith, ond sicrhawyd y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau. Gofynnwyd i'r cyngor riportio unrhyw lifogydd yn y safle yn syth i'r Gwasanaeth Carffosiaeth ar 0800 0853968.*
10.iii.05/21 Byrddau Llwybrau Gwlân – *mae'r aelodau o'r is bwyllgor wedi dechrau casglu gwybodaeth ac yn edrych ar gwahanol luniau, logo ayyb y gellir defnyddio – byddant yn cyfarfod mis nesaf eto*
10.i. Cwrs Cod Ymddygiad – *dwedodd y Clerc bydd y cyfarfod ar yr 22ain o Fai i ddechrau am 7yh cyn y Cyfarfod Blynyddol.*
10.ii. 02/23 Coroni'r Brenin - *nododd y Clerc ei bod wedi edrych ar brisiau coed cynhenid yn y siop arddio yng Nghastell Newydd Emlyn ac roedd y prisiau tua £20 – clerc i gysylltu a'r ysgolion am amcan o pa goeden byddent yn ffafrio*

7. **04/23 GOHEBIAETH:**
i. ebost – Hywel Dda – Atgoffa am - Dyddiadau digwyddiadau cyhoeddus ar gyfer ymgynghoriad ar leoliad ysbyty gofal brys a wedi'i gynllunio newydd – *cylchlythyrwyd*
ii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 27/03/23 - 31/03/2023 – *cylchlythyrwyd*
iii. ebost – Chris Hardy – cylchlythyrwyd
iv. ebost – CSG – Newyddion diweddaraf – *cylchlythyrwyd*
v. ebost – Chris Hardy – Footpath Diversion Order Copy 12/138 – *cylchlythyrwyd*
vi. Skanda Vale – Lythyr o ddiolch am y rhodd
vii. ebost – CSG – cau ar frys U5470 - Felindre, Llandysul SA44 5EJ (one.network: 133562673) – cylchlythyrwyd
viii. ebost – Paul Davies CSG – Recriwtio Heddlu Gwirfoddol yn agor ar 5ed Ebrill 2023 - cylchlythyrwyd
ix. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 03/04/23 - 07/04/2023 – *cylchlythyrwyd*
x. ebost – ULlC - Datganiad Ysgrifenedig Gan Llywodraeth CymurPapur Gwyn Diwygio Etholiadol - cylchlythyrwyd
xi. ebost – Cylchlythyr CIC Hywel Dda – *cylchlythyrwyd*
xii. ebost – HywelDda – Atgoffa am Ymgynghoriad Safle Ysbyty Newydd: Gwahoddiad i gyfarfod i Gynghorau Tref a Chymuned – *cylchlythyrwyd*
xiii. ebost – Hywel Dda - Newidiadau i aelodaeth y Bwrdd – *cylchlythyrwyd*
xiv. ebost – Havard Hughes - Achub ein tirweddau arbennig – *cylchlythyrwyd*
xv. ebost – CSG – cau dros dro U5470 - Felindre, Llandysul, Felindre SA44 5XB (one.network: 133559490) – *cylchlythyrwyd*
xvi. ebost – CSG – cau hewl dros dro C1296 Cwmduad SA33 6AU (one.network: 133581374) – *cylchlythyrwyd*
xvii. ebost – PCAC - Apêl Cynllunio ymgynghori – PL/04634 - AP-7235 - *cylchlythyrwyd*
xviii. ebost – CSG - Cronfa Pobl a Sgiliau – *cylchlythyrwyd*
xix. ebost – ULlC - Rhybuddion Brys / Emergency Alerts – *cylchlythyrwyd*
xx. ebost - ULlC – Cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin 25.4.23 - Llanelli
xxi. ebost – ULlC – Hyfforddiant - cylchlythyrwyd
xxii. ebost / email – Dŵr Cymru – *deliwyd o dan M y C*
xxiii. ebost / email – CSG – Ceisiadau Cynllunio 17/04/23 – 21/04/23 – *cylchlythyrwyd*

8. **04/23 CYNLLUNIO**
**CEISIADAU CYNLLUNIO - YMGYNGHORI LLAWN**
**Cais Ymgynghori**
**PL/05741** – Amrywiaeth ar amod 2 ar W/40639 (garej ar wahan a mân newidiadau i'r cynllun) - Plot 10 Cilgwyn Bach Fields, Heol Y Dderwen, Llandysul, SA44 4RP - *dim barn*
**PL/05774** – Ffurfiant arfaethedig trac mynediad amaethyddol o tua 45metr, i'w orffen gyda cerrig mâl/craidd caled i ffurfio mynediad eilaidd i glos y ffarm ac i dir tu hwnt heb yr angen i fynd drwy'r clos cyfan – Penclawdd Uchaf, Rhos, Llandysul,

SA44 5HF – *dim gwrthwynebiad*



**PL/05773** - Bwriad i gadw'r gwaith peirianyddol sydd eisoes wedi'i wneud er mwyn ehangu'r clos fferm fechan bresennol. Cadw'r Twnnel poly ar gyfer dibenion amaethyddol a phob gwaith cysylltiedig a'r uchod - Penclawdd Uchaf, Rhos, Llandysul, SA44 5HF - *dim gwrthwynebiad*

**9. <u>04/23 MATERION ARIANNOL</u>**

i.TRYWYDD [caniatad i'w dalu pan daw'r anfoneb]................................£
ii. HMRC ( Ebrill *)*.........................................................£130.00
iii. SOLUTIONS FACTORY .........................................................£79.38
iv. YSGOL SUL ST LLAWDDOG HALL [Hirio].........................................£10.50
v. BOOMERANG [T Llew Jones] ...................................................£126.00
vi. TELEMAT[gwasanaeth PAYE] ...................................................£72.00

Arian yn y Banc Cyfrif Cyfredol ar 13/04/2023 ..................................£23,945.61

**b. <u>S/O</u>**
Cyflog y Clerk ................................................................ £520.00

**2. <u>Apêl am Nawdd Ariannol</u>**
Dim

**10. 0<u>4/23 MATERION ANGEN TRAFODAETH</u>**

i. **<u>Cydnabyddiaeth tâl</u>** – eglurwyd gan y Clerc yr hyn mae cynghorwyr yn deilwng o'i dderbyn ac os nad ydynt am unrhyw gydnabyddiaeth bod yn rhaid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r Clerc i ddatgan hyn erbyn y cyfarfod nesaf.
ii. **<u>Yswiriant Parc Saron</u>** – yn dilyn trafodaeth drylwyr ynglyn a thâl am yswiriant i Barc Chwarae Saron cytunwyd taw rhodd byddai'r Cyngor yn gwneud tuag at gost yr yswiriant ac nid talu'n llawn amdano. Cytunwyd hefyd y dylai Parc Chwarae Parc Puw dderbyn yr un rhodd. Cynnigwyd y swm o £800 yr un i'r ddau barc gan Cyng M Rees ac eiliwyd gan y Cyng A Thomas cariwyd y cynnig ac nid oedd unrhyw gynigiad o welliant.

**11. <u>04/23 ADRODDIAD</u>**
Doedd dim i adrodd ar Neuadd Pentrecwrt.

**12. <u>04/23 SYLWADAU'R CYNGHORWYR</u>**
1. Cyng A Thomas – i. codwyd y mater o rwbel a.y.y.b tu allan i siop Spar Pont Tyweli – gan bod yr ardal hon ym mhlwyf Llanfihangel awgrymwyd dylid rhoi gwybod i glerc Cyngor Llanfihangel-ar-arth
2. Cyng Jamie Ayres – i. nododd bod pont Henllan wedi cael ei tharo'n wael – Cyng H Evans i gysylltu â'r Cyngor Sir
3. Cyng K Howell – i. soniodd bod sbwriel yn cael ei adael yng nghware Llysgeler – gan taw eiddo personol yw'r safle ni all y cyngor gwneud dim am y peth
3. Cyng D Evans – i dwedodd bod arwyneb yr hewl drwy Drefelin yn ddifrifol – Cyng H Evans i gysylltu â'r Cyngor Sir

**13. 0<u>4/23 CYFARFOD NESAF</u>**

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf nos Lun Mai 22ain 2023 pryd y cynhelir hyfforddiant Côd Ymddygiad am 7yh a'r Cyfarfod Blynyddol i ddilyn am 8.15/30yh ( dibynnu ar yr amser bydd y cwrs yn gorffen) yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00yh

_______________________________ Cadeirydd Dyddiad _____________________